

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 19, 2019 am 7:30 o'r gloch.**

Preseanol Cynghorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Mordaf Roberts, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Llion Rh. Williams yn datgan diddordeb ynglŷn â Neuadd Llanfachreth yn Eitem 6.c..

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 19, 2019

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 19, 2019

Eitem 6.ff. Llythyr (20/2/2019) oddi wrth Mr Peter Jones yn rhoi gwybod ei fod yn ddigalon a siomedig bod ei gais am bin halen wedi cael ei wrthod. Gwel-y-Garn, Llanfachreth (LL40 2EH).

Eitem 8.c. O Gyfriflen Banc mis Chwefror mae camgymeriad wedi ei wneud gyda'r taliad aelodaeth i Un Llais Cymru. Mae'r taliad i fod yn £132 a ddim £130. Mae angen taliad ychwanegol o £2.

Gwnaethpwyd ymoliadau gyda'r Banc ynglŷn â'r camgymeriad.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Maent angen cymorth ariannol.

b. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Gwasanaeth Eiddo yn ymwneud ag Ysgol Machreth a'r tir cysylltiedig sef y maes parcio a'r cae chwarae. Amgáu mae map yn dangos y lleoliad.

Maent angen gadarnhad dymuniad y Cyngor Cymuned i Gyngor Gwynedd drosglwyddo'r maes parcio sydd nesaf at safle'r ysgol a'r maes chwarae gyferbyn a'r ysgol i'r Cyngor Cymuned. Maent hefyd angen manylion y cwmni cyfreithwyr fydd yn gweithredu ar ran y Cyngor Cymuned mewn cyswllt a'r trosglwyddiadau hyn.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 19, 2019

Maent am drosglwyddo'r maes parcio i'r Cyngor Cymuned am swm nominal o £1, yn amodol ar gynnwys cymal "Overage" fydd yn galluogi Cyngor Gwynedd i hawlio canran o gynnydd yng ngwerth y safle pa bai hawl cynllunio ar gyfer datblygu'r safle yn cael ei dderbyn yn y dyfodol. Cyn bo unrhyw drosglwyddiad yn cael ei ffurfioli, bydd angen i Cyngor Gwynedd rhoi ystyriaeth i'r angen posibl i gadw hawl parcio ynghyd a hawl mynediad gyda cherbyd i safle'r Ysgol dros ran o'r maes parcio gan fod y fynedfa bresennol i safle'r Ysgol o ochr y Neuadd Bentref yn gyfyng iawn, a bod amheuaeth ynghylch a'i pherchnogaeth.

Cafodd Cyngor Gwynedd y tir chwarae fel rhodd ond gyda'r ysgol wedi cau mae hawl gan y Cyngor Cymuned i ofyn am drosglwyddiad y tir

Nid ydynt wedi cael ymateb gan yr Eglwys ynglŷn eu bwriad â'r Ysgol.

Anfonwyd copi o'r wybodaeth i'r aelodau.

O Gofnodion Gorffennaf 18, 2017 rhoddwyd gwybod i'r Gwasanaeth Eiddo:

Nid yw'r Maes Parcio nesaf at safle'r ysgol yn perthyn i'r Ysgol. Lle cyhoeddus i'r gymuned yw'r Maes Parcio.

Mae gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb o gael y Cae Chwarae gyferbyn a'r ysgol.

O Gofnodion Medi 19, 2017 rhoddwyd gwybod i'r Gwasanaeth Eiddo:

Mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn cymryd perchnogaeth o'r maes parcio sydd nesaf at safle Ysgol Llanfachreth am y swm o £1.

Mae'r Cyngor yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwyddo'r Cae Chwarae gyferbyn ag Ysgol Llanfachreth i'r Cyngor.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Eiddo:

Y maes parcio nesaf at safle'r ysgol. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwyddo'r maes parcio sydd nesaf at safle Ysgol Llanfachreth am y swm o £1 i'r Cyngor Cymuned.

Y cae chwarae gyferbyn a'r ysgol. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwyddo'r maes chwarae gyferbyn â'r ysgol i'r Cyngor Cymuned.

Ein cyfreithiwr ynglŷn â throsglwyddo'r tir i'r Cyngor Cymuned fydd Guthrie Jones & Jones, Waterloo Chambers, Bridge Street, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1AU.

c. Llythyr(13/3/2019) oddi wrth Nansi Thirsk, Guthrie Jones & Jones ynglŷn â Neuadd Llanfachreth. Mae Pwyllgor y Neuadd am gofrestru'r Neuadd gyda'r gofrestrfa tir er mwyn i ni wneud ceisiadau am grantiau i gynnal a chadw y Neuadd. Yn ol y gweithredoedd mae Conveyance 6 Gorffennaf 1972 (copi amgau) yn trosglwyddo'r tir i The Parish Council of Llanfachreth. Er mwyn cofrestru'r tir i enw Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth bydd angen i ni drosglwyddo'r eiddo yma o enw'r Cyngor i enw

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 19, 2019

Ymddiriedolwyr Neuadd Llanfachreth, a bydd angen hefyd dangos gweithred apwyntiad Ymddiriedolwyr y Neuadd.

Maent yn deall ein bod yn awyddus i gofrestru tir i gefn y Neuadd sydd ddim yn cael ei ddangos ar y gweithredoedd. Mi fydd rhaid gwneud cais arwahan i'r tir yma, yn seiliedig ar "adverse possession" - lle mae'r tir wedi bod yn ein meddiant ond heb dim gweithred i brofi hynny, am o leiaf 12 mlynedd. Mi fydd yn ofynnol i un o'r ymddiriedolwyr wneud Datganiad Gwirionedd i'r perwyl yma.

Maent wedi gyrru y ffioedd bydd rhaid ei dalu mewn llythyr i Chris Smith yn ôl ym mis Mai 2018. Nid yw rheiny yn cynnwys paratoi trawsgludiad o'r Parish Council of Llanfachreth i'r Cyngor Cymuned. Tybient y byddai hwnnw yn £200 ychwanegol.

Anfonwyd copi o'r llythyr ymlaen i'r aelodau.

Yn y cyfarfod cafwyd wybod mae tir lleoliad y Neuadd wedi ei gofrestru a bod y tir tu cefn y Neuadd ddim ar y gweithredoedd. Y Cyngor Cymuned sy'n berchenog y Neuadd.

ch. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru trwy law Mr Elfed ap Gomer. Mae'r llythyr yn rhoi gwybod mai Swyddfa Archwilio Cymru bydd yr archwilydd wedi 2019/2020 ac nid BDO.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Nid oedd adroddiad.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £200. Amgáu oedd pecyn o Welsh Brew i ymlacio.

b. Llythyr (22/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 yn diolch am ein rhodd o £100.

c. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £500.

ch. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Federasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

d. Llythyr (22/2/2019) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Cerdyn(23/2/2-19) oddi wrth R.A.B.I. Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £100.

e. Llythyr (1/3/2019) oddi wrth Llygad Y Dydd yn diolch am ein rhodd o £50.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 19, 2019

f. Cerdyn (2/3/2019) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Brithdir yn diolch am ein rhodd o £500.

ff. Llythyr (18/3/2019) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2019).

ii. Bil am £192.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2019 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.

iii. Taliad misol i'r Clerc o Ebrill - £99.64

Taliad misol i'r Cyllid a Thollau - £24.80.

$12(\pounds99.64 + \pounds24.80) = \pounds1,493.28$ y flwyddyn (gweler Eitem 8.d. Cofnodion 15, 2019).

Penderfynwyd talu'r bil.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28 Chwefror, 2019: £1,138.38.

h. Balans yn y banc ar 29 , 2019: £4,376.59.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. archwilio pyst 'crash barrier' sydd ar y rhiw Capel y Ffrwd, Llanfachreth. Mae un postyn wedi pydru.

ii. rhoi rhan o'r 'crash barrier' sydd rhwng Tŷ Min a Doladd, Hermon yn ei gywir le.

iii. agor cwter sydd wedi cau ar ochr isaf i fynedfa i Aran Hall, Rhydymain.

Llofnod:

Dyddiad: